

TUDALEN 24

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **6 Mawrth 2023** am 6.30 pm.

PRESENNOL:- Cyng. Medwyn Hughes (Cadeirydd) Cyng. Gwynant Roberts (Maer), Cyng. Elin Walker Jones (Dirprwy Faer), Cyng. Salamatu Fada, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos Fôn Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinas) Howard Huws (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion).

94/22 YMDDIHEURIADAU: Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones

95/22 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

96/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Cafodd y Cyngor gyflwyniad chwarter awr gan gynrychiolwyr o dîm merched Bangor 1876. Cafwyd manylion am strwythur y clwb, sy'n un cynhwysol iawn, gyda dros 150 o chwaraewyr o oedrannau gwahanol yn cymryd rhan, ynghyd â 40 o wirfoddolwyr, ac maent wedi profi cryn lwyddiant.

Diolchwyd i'r cynrychiolwyr am eu cyflwyniad manwl a diddorol a gofynnwyd i'r clwb roi diweddariadau rheolaidd yn y dyfodol.

97/22 CYMERADWYO'R STRATEGAETH PARCIAU A PHARCAU CHWARAE

Adroddiad wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw

Eglurodd Cyfarwyddwr y Ddinas y strategaeth arfaethedig ar gyfer diweddaru holl barciau chwarae'r Ddinas, fel y manylwyd arni yn yr adroddiad.

Hysbyswyd y Cyngor am £5,000 ychwanegol a oedd wedi'i adael mewn ymddiriedolaeth ar gyfer maes chwarae Coed Mawr. Gellid ychwanegu'r swm hwn at gyllideb y Cyngor o dderbyn arian cyfatebol gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

- i. Cymeradwyo'r strategaeth Parciau a Pharciau Chwarae.
- ii. derbyn a rhoi arian cyfatebol i'r £5,000 i'w wario ar le chwarae Coed Mawr.

98/22 TRAFOD TROSGLWYDDO ASED AU MAES CHWARAE Ffordd Y TRAETH

Hysbyswyd y Cyngor am gynnig gan Gyngor Gwynedd i roi cae chwarae Ffordd y Traeth ar les i Gyngor y Ddinas, am gyfnod o 99 mlynedd, am ffi enwol o £1 y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae'n costio oddeutu £2,000 i gynnal a chadw'r cae, ond gellid gostwng y swm hwn gyda rheolaeth fwy rhagweithiol.

PENDERFYNWYD cytuno i'r trosglwyddiad mewn egwyddor, ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dinesig i barhau â'r trafodaethau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR

